**COFNODION Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd yn y Pafiliwn, Llandybïe, ac arlein trwy gyfrwng Teams, ar ddydd Mercher, Mehefin 24[ain], 2026 am 6.30 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | P. H. Roberts | H. Davies | C. R. Thomas |
| | D. Thomas | Mrs A. J. Evans | G. J. Davies |
| | E. J. Davies | E. W. Nicholas | L. Wilkins |
| | D. W. Hopkins | Mrs K. D. L. Davies | N. C. Davies |

**Yn mynychu arlein** A.W. Jones

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ymddiheuriadau:** | R. A. Davies | J. W. Tandy | S. Roberts |
| | L. Jones | R. W. Barnes | A. L.Thomas |

**Absennol:** Neb

**Cofnodwr:** S. Taylor

**Clerc:** D. S. Nicholas

**998.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd chwech ymddiheuriad am absenoldeb, sef oddiwrth y Cyng R. A. Davies, y Cyng S. Roberts, y Cyng A. L. Thomas, y Cyng L. Jones, y Cyng J. W. Tandy a'r Cyng A. L. Thomas

**999.**

**DATGANIADAU O FUDDIANT.**

Derbyniwyd un datganiad o fuddiant oddiwrth y Cyng E. W. Nicholas, yn mynegi buddiant o dan eitem gohebiaeth 6 (ii), gan ddatgan ei fod yn aelod o Glwb Tenis Llandybïe.

**1000.**

Cadeirydd

## COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i Gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

- Cofnodion y Cyfarfod Cyffredin, a gynhaliwyd ar Fai 27ain, 2026
- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd ar Fai 27ain, 2026
- Cofnodion y Cyfarfod Statudol, a gynhaliwyd ar Fai 27ain, 2026
- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi a Chyflygoeth, a gynhaliwyd ar Fehefin 10fed, 2026
- Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Codi Proffil y Gymuned, a gynhaliwyd ar Fehefin 10fed, 2026

### Derbyn y Cofnodion.

Roedd y Clerc am gadarnhau bod yr holl argymhellion a wnaethpwyd gan y ddau gyfarfod Pwyllgor a gynhaliwyd ar Fehefin 10fed, 2026 nawr yn cael eu **Penderfynu**, ac roedd y Cadeirydd wedi cytuno bod hyn yn cael ei nodi yn y cofnodion.

Gofynnodd y Cadeirydd am gynnig i dderbyn yr holl gofnodion, a **Chynigiwyd** hynny gan y Cyng K. D. L. Davies ac **Eiliwyd** y cynnig gan y Cyng D. Thomas.

**Penderfynwyd** derbyn y cofnodion ac holl **argymhellion** pwyllgorau Mehefin 10fed, 2026.

**1001.**

### Materion yn Codi o'r Cofnodion.

Roedd un ymholiad; roedd y Cyng D. Thomas wedi gofyn pa gynnydd oedd wedi ei wneud o ran yr 16 hysbysfwrdd/byrddau gwybodaeth. Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod hyn yn rhan o gais i Gronfa Fferm Wynt y Betws, cais yr oedd am gyflwyno yn ystod yr wythnos nesaf.

**1002.**

### CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Nid oedd unrhyw gyfranogiad.

**1003.**

### GOHEBIAETH

**(i)**

### Adroddiad yr Heddlu ar Fai 1af, 2026

Cadeirydd

| **Ardal Llandybïe** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | 9 |
| Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol | **3** |
| Bwrgleriaeth | **2** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **2** |

| **Penygroes, gan gynnwys y Blaenau a Chaerbryn;** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | **14** |
| Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol | **1** |
| Cyffuriau | **2** |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | **2** |

| **Saron, Capel Hendre, Cwmgwili a Phenybanc** | |
|---|---|
| Trais Troseddol a Rhywiol | 12 |
| Difrod Troseddol a Llosgi Bwriadol | 5 |
| Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol | 4 |
| Bwrgleriaeth | 1 |

NB; Er gwybodaeth i'r aelodau a'r cyhoedd, mae ffigyrau Trosedd Ardal Cymuned Llandybïe ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen isod. Roedd y Clerc wedi argymell bod yr aelodau yn astudio map trosedd eu hardal, gan ei fod yn cynnig peth manylion ynghylch y ffigyrau trosedd drwy chwilio'r adran 'yn fy ardal i'.

Llandybie | Police.uk (www.police.uk)

**(ii) Clwb Tenis Llandybïe**

Darllenodd y Clerc ebost a dderbyniwyd oddiwrth Glwb Tenis Llandybïe, yn mynegi pryder bod diogelwch ar safle yn broblem, gan fod y cyrtiau yn cael eu camddefnyddio gan aelodau penodol y gymuned ar gyfer chwarae pêl, reidio beiciau ac achosi difrod i bostyn rhwyd. Roedd y clwb wedi gwneud cai bod clo cyfunrhif yn cael ei osod ar y gât nid, o angenrhaid, er diben codi tâl am chwarae tenis ond, yn hytrach, er mwyn cadw'r cyrtiau'n ddiogel pan na fyddant yn cael eu defnyddio.

Cadeirydd

Trafodwyd y mater mewn manylder, a **phenderfynwyd** peidio â gosod clo cyfunrhif ar y gât, ond bod y Clerc yn ymchwilio i osod Camerâu Teledu Cylch Cyfyng ar y Pafiliwn, gyda'r camerâu wedi'u hanelu at y cyrtiau a'r grin bowlio, ynghyd ag arwyddion amlwg mewn ymgais i rwystro camddefnydd.

**Penderfynwyd** gofyn bod y Clerc yn diweddaru'r Aelodau yn y cyfarfod nesaf ynghylch lleoli'r camerâu, yr arwyddion a'r gost o wneud hynny.

**(iii) Llythyr o gwyn at Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch Gilfach Iago.**

Darllenodd y Clerc lythyr yr oedd wedi'i ddrafftio i'w anfon at y Cyngor Sir, yn cwyno am yr oedi ynghylch gwireddu prosiect Gilfach Iago.

Holodd y Cyng D. Thomas ynghylch y cynllun y cytunwyd arno, sef gosod llwybr troed, a bod modd dechrau ar y gwaith, a bod yr oedi yn cael ei achosi gan gytundeb llwybr ceffyl. Roedd y Cadeirydd, y Cyng A. J. Evans wedi gofyn bod atodiad yn cael ei ychwanegu at y llythyr, sef cais am amserlen derbyn ymateb ffurfiol i'r llythyr.

**Penderfynwyd** bod y Clerc yn diwygio, ac yn anfon y llythyr.

**1004.**

**Adroddiad y Clerc, 19/06/2026**

**At: Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor.**

**(a) Parciau.**

**(i) Saron a Chapel Hendre 106. Yn dal ar y restr i'w ddilyn i fyny gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.**

- Arian Adran 106 ar gyfer Parc Saron - £37,226.

**Diweddariad:** Mae'r gwaith o osod Gwifren Sip y Blaenau i ddechrau ar Fehefin 22ain, a bydd Penygroes yn dechrau yn fuan wedi hynny.

**Banc Y Ddraenen:** Mae gât dôl yn cael ei gosod ar hyn o bryd, yn caniatau mynediad oddiar Heol Waterloo; **mae'r gwaith yn nwylo'r contractwr, sydd ar ei hôl hi.**

**(b) Llwybrau Troed; eitemau sy'n weddill.**

**51/23 Cwmfferws:** Y llwybr ceffylau sy'n gysylltiedig â'r llwybr troed; ni chaniateir marchogaeth. Mae'r Clerc wedi gofyn i Dîm y Cyngor Sir i archwilio codi arwyddion i rybuddio marchogion.

Cadeirydd

**Dim Diweddariad:** Mae'r Clerc wedi cyfarfod â'r tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac wedi gofyn i'r Adran Ffyrdd am ddiweddariad, a disgwylir y bydd hyn yn cadarnhau bod hwn ymysg y llwybrau ceffyl sy'n cael eu huwchraddio yn yr ardal ar hyn o bryd, a fydd yn rhan o'r prosiect arwyddion lleol.

**51/23 Cwmfferws i Saron:** Eitem sy'n disgwyl sylw, ac a nodwyd gan y Cyng N. C. Davies; bydd y Clerc yn darganfod pwy yw'r perchennog ac yn trefnu cyfarfod gyda nhw i drafod atgyweirio'r ffens sy'n edrych dros yr afon.

**Diweddariad:** Mae'r Clerc wedi trosgwlyddo'r gwaith, ac yn aros am ymateb oddiwrth y contractwr; **mae'r contractwr yn dal i wynebu anhawster yn ei ymdrechion i dderbyn ymateb oddiwrth y tirfeddianwr.**

**Pump ymholiad ynghylch llwybrau troed o gwmpas Wern Ddu ac Heol Ddu:** Mae'r Cyngor Sir wedi gwysio'r tirfeddiannwyr priodol i ddatblocio a chlirio rhwystrau di-angen; bydd y Clerc yn monitro'r cynnydd.

**Diweddariad:** Y sefyllfa gyfredol yw bod yr holl waith wedi'i gwblhau, ag eithrio 51/101, lle mae'r gwaith yn cael ei wneud i orffen y bont, a 51/114 lle mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth oddiwrth Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yn nodi bod cais i ddargyfeirio'r llwybr heibio i bwll dŵr wedi'i dderbyn. Roedd y Clerc wedi ymateb yn gadarnhaol, ac yn gobeithio y bydd hyn yn cael ei ail-osod yn ystod y misoedd nesaf.

**Diweddariad:** Mae'r sefyllfa heb newid.

**51/80 Cilyrychen Llandybïe:** Clwb Cerdded Crwydriaid Bettws sydd wedi cyflwyno'r adroddiad, gan nodi bod angen trwsio ac amnewid y camfeydd a'r ffensys ar frys; mae hyn wedi cael ei ychwanegu at rhestr waith Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin.

**51/96 a 51/97 Llangwyddfan, Llandybïe:** Roedd y grŵp cerdded uchod hefyd wedi dweud bod slyri yn rhwystro'r llwybr cerdded; mae hyn hefyd wedi'i ychwanegu at rhestr waith Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Cyngor Sir Caerfyrddin, a byddan nhw'n ysgrifennu at y tirfeddianwr.

**Diweddariad:** Mae gwaith ar y gweill yn y lleoliad hwn gan dîm cyfreithiol Hawliau Tramwy Cyhoeddus i ddargyfeirio'r llwybr troed hwn ar lwybr mwy hygyrch, er mwyn osgoi carthbwll.

**51/75 Aberlash, Pont:** Mae'r dasg o adeiladu pont amgen ar y gweill ac mae'r Clerc yn disgwyl derbyn dyddiad gorffen y gwaith oddiwrth Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus Sir Gâr.

**51/102; Heol Wern Ddu hyd at Raeadrau Glynhir:** Roedd y Clerc wedi cerdded y llwybr troed hwn yng nghwmni swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac wedi gofyn bod gatiau clo a rhwystrau eraill a thyfiant yn cael eu clirio gan y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'n contractwr ni.

Cadeirydd

**(c) System Wresogi yn y Pafiliwn Bowls a Thenis, a grantiau eraill ar gyfer datrysiadau ynni mwy gwyrdd.**

Mae'r Clerc wedi llunio manyleb ffurfiol, ac am dderbyn 3 dyfynbris gan gontractwyr priodol.

Yn amodol ar dderbyn 3 dyfynbris, mae ariant grant gwerth £15,000 wedi'i glustnodi tuag at y system wresogi. **Fodd bynnag, mae'r tîm Egin yng Nghaerdydd wedi'i hysbysu bod y trothwy wedi cynyddu i £35,000.**

**(c) Cronfa Fferm Wynt y Betws yn agored o Ebrill 2026 a ffynonellau cyllid eraill.**

Mae'r Clerc yn ystyried y prosiectau canlynol:

- Mewn ymateb i drafodaeth flaenorol ynghylch cynhyrchu taflenni rhanbarthol i gerddwyr, gosod arwyddion Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n cysylltu'r 120 llwybr troed gyda mapiau arlein ac apiau.

**Diweddariad:** Mae'r Clerc yn gweithio ar lunio manyleb.

- Llifoleuadau LED yn Llandybïe.

**Diweddariad:** Mae'r Clerc wedi cyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb mewn grant newydd 'cronfa ynni adnewyddu cymunedol', grant sydd wedi'i rhyddhau gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a bydd y panel yn cyfarfod ar Fai 28ain.

**Diweddariad:** Mae'r Clerc yn aros am ymateb, ond mae hefyd wedi'i gyfeirio at wasanaeth arbenigwr.

**(ch) Uwchraddio'r parciau:**

- Uwchraddio offer ym Mharc Saron; gwaith chwynnu, mainc bicnic a mainc eistedd.
- Uwchraddio offer ym Mharc Derwydd; mae angen gwaith atgyweirio ar ambell ddarn o offer, materion a gafodd eu hadnabod yn ystod yr arolwg blynyddol a gynhaliwyd tr wythnos ddiwethaf.

**Diweddariad:** Mae'r Clerc, ar hyn o bryd, yn cwrdd â chyflenwyr a grwpiau sydd â diddordeb, er mwyn archwilio cost y prosiectau hyn.

**(d) Diweddariad ynghylch y brydles i Glwb Pêl-droed Ieuenctid Saron**

Mae'r Clerc wedi derbyn cynnig drafft o'r brydles, ac mae hwn yn awr yn nwylo Chris Worrell, cyfreithwr cwmni CCW Law.

**(dd) Llifogydd yn ardal Parc Saron**

Mae'r Clerc wedi derbyn nifer o gwynion ynghylch gerddi sydd wedi dioddef llifogydd ar y lôn ger Cae Pêl-Droed Ieuenctid Saron ac, ym mis Ionawr, roedd wedi

cysylltu â chwmni Siddells Environmental Services i glirio draeniau a oedd wedi'u blocio, ac yna i ddad-flocio symp ar y darn isaf o dir. Mae'n ymddangos bod y geuffos/ ffos wedi blocio. Mae'r Clerc yn chwilio am gyngor proffesiynol i geisio datrysiad a phris am wneud y gwaith.

**Diweddariad:** Mae'r Clerc yn aros am gyngor cyfreithiol ynghylch dargyfeirio'r cwrs dŵr.

**(e) Cylchlythyr Chwarterol.**

Mae hwn yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, a bydd yn cael ei ryddhau ym Mehefin. Gobaith y Clerc yw y bydd yn gallu cyflwyno hwn yn y cyfarfod.

(f) **Adroddiad ynghylch y weledigaeth ar gyfer staff y dyfodol:** Roedd y Clerc wedi anfon copi o'i adroddiad at y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, fel bod modd iddynt ei ystyried; mae wedi argymell cynnal cyfarfod gyda nhw er mwyn trafod yr adroddiad, a chyflwyno'r adroddiad gerbron y Cyngor ym mis Gorffennaf 2026.

**(ff) Y wefan newydd:** Mae'r Clerc wedi llunio manyleb ddrafft er mwyn cynnal ymgynghoriad cychwynnol gyda'r Cadeirydd.

Dai Nicholas – Clerc

Mehefin 19eg, 2026

**Penderfynwyd** derbyn adroddiad y Clerc, ynghyd â'r penderfyniadau a gynhwyswyd ynddo.

**1005. Materion Ariannol**

**(i) Adroddiad Cyllidol ar Fehefin 19eg, 2026**

| | |
|---|---|
| Morgan & Morgan - anfoneb 206251201854 | 12.00 |
| BT – Llinell ffôn sefydlog, Ebrill 2026 - anfoneb M044MY | 67.56 |
| BT – Llinell ffôn sefydlog, Mai 2026 - anfoneb M045QV | 110.08 |
| K D Gardening Services, Glanhau'r toiledau a'r Pafiliwn | 1016.24 |
| Connor Thomas – amrywiol waith ac atgyweiriadau | 636.00 |
| D. S. Nicholas – Cyflog Mehefin 2026 | 2608.00 |
| S Taylor – Cyflog Mehefin 2026 | 890.65 |

Cadeirydd

**Taliadau sy'n ddyledus ar yr 22ain**

- M. Voyle – newid, a gweithio ar, y llifoleuadau - £495.23
- BT – mis Mai/Mehefin - £60.00

**(ii) Adroddiad Cyllidol.**

**INCWM**

| PENNAWD | CYLLIDEB | GWARIANT GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Prasept | 200645.00 | 66881.66 | **-133763.34** |
| Ffurflen TAW (Ad-daliad) | 24000.00 | 0.00 | **-24000.00** |
| Gweinyddu | 3000.00 | 42.55 | **-2957.45** |
| Llog Banc | 4900.00 | 7006.68 | **2106.68** |
| Cytundebau llogi/Grantiau, Adran 106 | 46500.00 | 18447.07 | **-28052.93** |
| **Cyfanswm** | 279045.00 | 92377.96 | **-186667.04** |

**GWARIANT**

| PENNAWD | CYLLIDEB | GWARIANT GWIRIONEDDOL | GWAHANIAETH |
|---|---|---|---|
| Torri'r Glaswellt | £32,000.00 | £9,134.18 | **£22,865.82** |
| Cyflogau Staff a PAYE | £68,261.00 | £16,575.05 | **£51,685.95** |
| Gwasanaethau Swyddfa | £10,000.00 | £1,757.62 | **£8,242.38** |
| Yswiriant | £4,000.00 | £2,955.02 | **£1,044.98** |
| Grantiau Ariannol (Mannau Agored, Neuaddau, Mynwentydd) | £20,000.00 | £0.00 | **£20,000.00** |
| Cynnal a Chadw Asedau (Cyfleusterau Cyhoeddus, Adeiladau, Parciau, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Claddfeydd | £77,450.00 | £39,258.08 | **£38,191.92** |
| Gwasanaethau a | £5,000.00 | £0.00 | **£5,000.00** |

Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| Thanysgrifau | | | |
| Lwfansau'r Aelodau a PAYE | £9,000.00 | £156.00 | **£8,844.00** |
| Costau Etholiad | £8,000.00 | £0.00 | **£8,000.00** |
| Adran 137 | £10,000.00 | £669.36 | **£9,330.64** |
| Goleuo | £6,500.00 | £5,572.08 | **£292.58** |
| Datblygu Cymunedol | £33,600.00 | £0.00 | **£33,600.00** |
| **Cyfanswm** | £283,811.00 | £76,077.39 | **-£207,733.61** |

**(iii) Balans ar 19/06/2026**

| **Paratowyd gan - D Nicholas** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| **Y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31/04/2026** | | | | | |
| **BALANS Y CYFRIFON** | | | | | |
| | | | | | **£** |
| | | | | | |
| **Dygwyd Ymlaen (balans agoriadol yn y Banc)** | | | | | **£193,641.50** |
| | | | | | |
| **Ychwanegu incwm yn ystod y flwyddyn** | | | | | **£92,375.68** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm** | | | | | **£286,017.18** |
| | | | | | |
| **Llai y gwariant** | | | | | **£76,076.67** |
| | | | | | |
| **Balans wrth gau'r Daenlen Gyllid** | | | | | **£209,940.51** |
| **(derbyniadau - taliadau)** | | | | | |
| | | | | | |
| **Taliadau/ sieciau na's cyflwynwyd** | | | | | £0.00 |
| | | | | | |
| **GWIR FALANS Y DATGANIAD** | | | | | **£209,940.51** |

**(iv) Diweddariad ynghylch yr Archwiliad Mewnol ac Archwiliad Allanol 2025/26**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod yr Archwiliad Mewnol yn barod i'w gasglu oddiwrth yr Archwilydd Mewnol, ac y byddai'n adrodd ynghylch y canfyddiadau yng Nghyfarfod Cyffredin mis Gorffennaf. Roedd hefyd wedi dweud ei fod yn y broses o baratoi at gyflwyno'r Archwiliad Allanol.

**Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiadau Cyllidol.

**1006.**

Cadeirydd

**Cyllid Adran 106.**

Cafwyd ond un diweddariad; roedd y Clerc wedi cadarnhau bod Cyngor Tref Rhydaman wedi hawlio’r swm o tua £25,000, i’w ddodi tuag at Brosiect Parc Glan yr Afon yn Nôl y Dderwen, sef arian Adran 106 a dderbyniwyd o ganlyniad i brosiect tai, ‘Tir oddiar Dôl y Dderwen’. Roedd wedi cadarnhau y bydd yn monitro rhyddhau’r ail rhan o’r arian, sef tua £25,000, ac hynny yng nghanol y prosiect, a’i fod yn bwriadu gwneud cais am yr arian hwnnw, onibai bod Cyngor Tref Rhydaman am wario arian pellach ym Mharc Glan yr Afon.

**1007.**

**Ceisiadau ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd**

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ynghylch Seremoni Urddo Maer Cyngor Tref Rhydaman, ynghyd â dathlu, mewn cyngerdd mawreddog a gynhaliwyd yn Ysgol Dyffryn Aman, genedigaeth y babi cyntaf a anwyd yn Ysbyty Dyffryn Aman yn 1948.

**1008.**

**Dyddiad y Cyfarfod nesaf**

**Penderfynodd** yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar Orffennaf 29ain, 2026. Cynhelir Cyfarfod y Pwyllgor Polisi a Chyflogaeth ar Orffennaf 15fed, 2026, gyda chyfarfod Codi Proffil y Cyngor yn dilyn ar yr un dyddiad

**1009.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i’w drafod, **daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben** am 7.16 yh.

_______________________

Cadeirydd